Adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2008/09

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Gellir cael yr adroddiad hwn mewn ieithoedd eraill, ac mewn fformatau eraill, ar gais.

Cysylltwch â Gofal Cwsmeriaid ar 01495 762200 am wybodaeth bellach.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
1. Sut ydyn ni'n gwneud i bethau weithio?	2
2. Gwasanaethau Plant	4
a) Amddiffyn Plant	4
b) Plant sy'n Derbyn Gofal	5
c) Plant mewn Angen	6
d) Plant Anabl	7
e) Gadael Gofal	8
f) Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	9
3. Oedolion (yn cynnwys oedolion hŷn)	10
a) Cefnogi'r Trosglwyddiad o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion	10
b) Pobl Hŷn	11
c) Gwasanaeth Pobl Anabl	13
d) Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl	14
e) Anableddau Dysgu	15
f) Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed	16
g) Cymorth i Gynhalwyr	17
Casgliad	18

Cyflwyniad

Efallai eich bod yn cael gwasanaethau cymdeithasol, efallai nad ydych, ond fe fydd gennych eich barn eich hun, efallai o ganlyniad i brofiadau eich perthnasoedd, ffrindiau a chymdogion. Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn cyfateb i'ch barn a'ch profiadau chi ac y bydd yn ein helpu ni oll i ddeall sut allwn ni barhau i wella gwasanaethau ar eich cyfer chi, eich teulu a'ch cymdogion.

Er mai adroddiad i bobl Torfaen ac aelodau'r cyngor yw hwn, fe fydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wrth iddynt benderfynu ar eu gweithgarwch yn Nhorfaen dros y flwyddyn nesaf.

Dyma ymagwedd newydd at werthuso gwasanaethau cymdeithasol - adroddiad gan y person sy'n dal y swydd sydd â chyfrifoldebau 'cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol', yn hytrach nag adroddiad gan AGGCC yn gwerthuso ein gwasanaethau ac yn dibynnu'n drwm ar reoli gwybodaeth a sylwebaeth gan y cyngor. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn treialu'r ymagwedd hon mewn perthynas â'n perfformiad yn 2008/09 ac fe fydd pob cyngor arall yng Nghymru yn dilyn yn ôl ein traed yn 2009/10.

Yn yr adroddiad hwn, fe fyddwch yn gweld ein bod wedi gosod blaenoriaethau uchelgeisiol i ni'n hunain. Mae hyn am fod gennym ddisgwyliadau uchel o'r gwasanaethau a drosglwyddir i chi ac i'r gymuned. Ni fyddwn yn gwneud hyn oll mewn un flwyddyn ac fe fydd rhai blaenoriaethau'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau, ond mae angen i ni ddechrau arnynt nawr i gwrdd â'n dyheadau tymor hirach.

Keith Rutherford

Prif Swyddog Dros Dro, Gofal Cymdeithasol a Thai

Mehefin 2009

1. Sut ydyn ni'n gwneud i bethau weithio?

Mae'r cyngor yn gwario dros £45m ar wasanaethau cymdeithasol; rydyn ni'n rheoli'r adnoddau hyn yn dda, a'r unig ffordd yr ydyn ni wedi gwneud hynny yw trwy ymdrechu i fod yn effeithlon. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn mynd i fod yn fwy a mwy pwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Roeddem wedi llwyddo i danwario yn 2008/09 ac fe fydd hyn yn ein helpu ni i reoli'r gyllideb eleni. Mae wedi creu cronfa wrth gefn i ddelio gyda'r pwyseddau niferus yr ydym yn eu hwynebu yn 2009/10. Rydym eisoes wedi gweld rhai arbedion effeithlonrwydd trwy weithio'n agos gydag asiantaethau eraill, e.e. GWICES (Gwasanaeth Offer Integredig Cymunedol Gwent Gyfan), gwasanaethau gofal canolradd i bobl hŷn a gwasanaethau i blant mewn asiantaethau gofal maeth annibynnol.

Ein diwylliant ni yw gweithio mewn partneriaeth ar draws y cyngor, a gydag asiantaethau allanol. Mae pawb yn gwybod, 'os ydych yn ei wneud ar eich pen eich hun, eich bod fwy na thebyg yn ei wneud yn anghywir'. Dyma thema gyson trwy gydol yr adroddiad hwn a dyma beth yr ydyn ni'n ei wneud yn gynyddol.

Rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud mwy, e.e. ar y cyfan, mae'r ffordd yr ydyn ni'n rheoli ein gweithlu yn dda, nid ydym yn cael llawer o drafferth i recriwtio staff i'r rhan fwyaf o swyddi ar hyn o bryd, ac mae cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad ar gael yn eang; ond, mae yna wir her o daclo absenoldeb oherwydd salwch o hyd.

Mae'r dadansoddiad wrth wraidd yr adroddiad hwn yn dangos i ni fod angen i ni gael ymagwedd fwy cyson wrth gasglu profiadau cynradd gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'u cynhalwyr. Mae angen i ni wneud gwell defnydd hefyd o'r hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthym ni.

Rydyn ni'n gwneud gwell defnydd o swyddfeydd, ac yn annog mwy o staff i weithio o gartref ac o leoliadau eraill o amgylch y fwrdeistref. Mae hyn yn golygu bod staff yn fwy hygyrch a hyblyg i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn gallu cynllunio eu gwaith ochr yn ochr â'u dyletswyddau teuluol.

Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau anghenion tu allan i oriau gwaith arferol, ac felly mae gennym drefniant ar y cyd ar draws hen gynghorau Gwent i ddarparu cymorth i bobl mewn sefyllfaoedd brys trwy Dîm Dyletswydd Argyfwng (TDA).

Mae ansawdd yr wybodaeth, a'r mynediad hwylus ati, yn dal i fod yn bwysig gan ei bod yn rhoi cyfle i ni ganolbwyntio ein hymdrechion mewn meysydd allweddol a gwella ein perfformiad. Mae pob aelod o staff yn deall eu rhan yn y broses o

wneud gwahaniaeth i berfformiad, a dyna sut y gallwn ni ddisgwyl gwella'n barhaus. Ond, mae yna le drwy'r amser i wneud gwell defnydd o wybodaeth dda ac mae'n anarferol nawr i unrhyw aelod o staff beidio â bod yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn rheolaidd i'w helpu i wneud eu gwaith.

Dyma'n blaenoriaethau ni:

- Dod o hyd i ddulliau o ymestyn y ffordd yr ydym yn defnyddio profiad defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr ar hyn o bryd, wrth wella gwasanaethau
- Gostwng absenoldeb oherwydd salwch, a'i gostau cysylltiedig, i sicrhau ein bod yn trosglwyddo gwasanaeth cyson
- Gwella gweithio hyblyg, fel bod aelodau o staff yn gallu cwrdd â'u cyfrifoldebau eraill, fel cynhalwyr a rhieni, ac, yn sgil hyn, datblygu bywyd mwy cytbwys
- Adolygu, monitro a rheoli ein cyllidebau yn barhaus i sicrhau ein bod yn trosglwyddo gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian
- Gwella'r ffyrdd yr ydyn ni'n cynllunio, comisiynu a phrynu gwasanaethau
- Gwella gwaith ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill i wneud gwell defnydd o adnoddau'r sector cyhoeddus a gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pobl yn profi'r gwasanaethau.

2. Gwasanaethau Plant

Mae darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn dibynnu ar ein gallu ni i feddwl am bopeth sy'n effeithio ar eu bywydau wrth asesu eu hanghenion ac wrth gwrdd â'r anghenion hynny. Nid yw Gwasanaethau Plant yn gallu darparu gwasanaethau yn ynysig, ac ni ddylent wneud hyn. Rydyn ni'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan asiantaethau i'w chwarae wrth gynllunio a throsglwyddo gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae trefniadau gwaith partneriaeth yn bwydo ein polisïau a'n gweithdrefnau a hefyd yn cael gwir effaith bositif ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydyn ni'n gwneud pethau gyda'n gilydd, trwy amrywiaeth o fforymau a gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y Gwasanaeth Addysg, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, Bwrdd Iechyd Lleol Torfaen, Heddlu Gwent, y Gwasanaeth Prawf ac asiantaethau'r sector gwirfoddol.

a) Amddiffyn Plant

Rydyn ni'n gwybod bod cael systemau a gweithdrefnau diogel yn rhan allweddol o amddiffyn a diogelu plant sy'n agored i niwed, ond nid yw'r systemau ar eu pen eu hunain yn amddiffyn plant ac rydym wedi sefydlu prosesau sicrhau ansawdd sy'n herio ac yn bwydo arferion. Mae gwybodaeth ac arolygiadau yn Nhorfaen yn cynnig peth cysur, e.e. yn 97% o gyfeiriadau, penderfynwyd o fewn 24 awr p'un ai i gymryd unrhyw gamau pellach ai peidio. Ond, mae ansawdd yr ymarfer ac ansawdd y beirniadaethau a wneir ac a brofir gan uwch reolwyr sy'n darllen cofnodion achos yn rheolaidd ac yn cael trafodaethau rheolaidd gyda gweithwyr cymdeithasol ynghylch y peryglon y maen nhw'n eu rheoli, yn fwy pwysig.

Mae'r cyngor yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'w rôl amddiffyn plant; rydyn ni'n cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i bwyllgor craffu ac rydyn ni'n cynnal seminar i aelodau i lansio'r *Llawlyfr Magu Plant Corfforaethol* a ddiweddarwyd yn ddiweddar.

Mae'r prif weithredwr ac aelodau'n sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn ni i ddiogelu ac i gefnogi plant sy'n agored i niwed, trwy gyswllt rheolaidd gydag uwch reolwyr o fewn Gwasanaethau Plant. Os oes rhywbeth yn mynd o'i le, rydym wastad yn cynnal adolygiad cynhwysfawr i ddysgu'r gwersi, gan gynnwys yr holl asiantaethau sy'n chwarae rhan mewn diogelu plant. Mae hyn yn rhoi sicrwydd pellach ond dim gwarantau sy'n galluogi pobl i fynd yn hunanfodlon. Dyma un o'n meysydd gwaith ble mae 'gwneud pethau ar ein pennau ein hunain' yn cyflwyno risgiau sylweddol, ac felly nid ydym yn gweithredu'n annibynnol wrth ddiogelu plant.

Rydyn ni'n gweithio ac yn rhannu cyfrifoldeb gyda'r heddlu, ysgolion a'r GIG ac yn gweithio'n agos gyda rhieni, teuluoedd a chymdogion. Mae hyfforddiant staff ym maes amddiffyn plant yn cael ei gynllunio a'i drosglwyddo ar y cyd, a bob amser yn cynnwys pobl o nifer o asiantaethau. Mae hyn yn gweithio'n dda i sicrhau bod y plant mwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn, ond nid yw wedi ei ddatblygu cystal ym maes ehangach diogelu plant a phobl ifanc, e.e. wrth hybu a datblygu llwybrau mwy diogel at ysgolion.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn dysgu o'r digwyddiadau yn Haringey ynghylch marwolaeth y plentyn a elwir yn 'Baby P' i brofi'n systemau, gweithdrefnau ac arferion yn barhaus a chadarnhau eu bod yn ddiogel
- Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd yr egwyddor o rannu cyfrifoldeb gyda'r holl asiantaethau allweddol, yn ein hymdrechion i amddiffyn y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed
- Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i ddatblygiad Panel Magu Plant Corfforaethol i adeiladu ar ein *Llawlyfr Magu Plant Corfforaethol* ac i atgyfnerthu rôl aelodau wrth gefnogi canlyniadau positif ar gyfer pobl ifanc
- Byddwn yn parhau i gryfhau ein perthynas gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg wrth hyrwyddo 'diogelu' fel egwyddor allweddol yn yr holl waith gyda phlant a phobl ifanc.

b) Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae yna rai arwyddion calonogol i awgrymu bod plant sy'n cael gofal gan y cyngor yn cael gwasanaethau amserol o ansawdd da, sydd wedi eu cefnogi'n dda. Cynhelir dros 95% o adolygiadau ar amser, ac mae yna gadarnhad annibynnol fod pob plentyn sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau priodol, llawer gyda'u teuluoedd eu hunain. Mae'r nifer o weithiau y mae plant yn cael eu symud i leoliadau newydd yn llai aml na'r cyfartaledd yng Nghymru, gan gynnig gwell sefydlogrwydd, sy'n hanfodol wrth helpu plant i deimlo'n ddiogel.

Mae mwy o blant yn cael gofal gan y cyngor nag y buasem yn ei hoffi ac yn ei ddisgwyl. Ond, trwy ein gwaith gyda Barnardo's ac Action for Children, mae gennym brosiectau pwysig sy'n dangos arwyddion calonogol o ostwng y nifer o blant sy'n cael eu gosod mewn gofal preswyl ac, yn benodol, yn cyfyngu arnynt. Mewn blynyddoedd diweddar, rydym wedi gweld cymaint â 13 o blant mewn gofal preswyl o gymharu â rhwng pedwar a chwech ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydyn ni'n hyderus y gallwn nawr ddarparu amrywiaeth gynyddol o wasanaethau'n lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ond, mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i recriwtio cynhalwyr maeth ar draws y fwrdeistref ac, yn enwedig, o gymdogaethau sydd ddim yn darparu llawer o gynhalwyr yn draddodiadol. Rydyn ni'n gweithio gyda'r naw cyngor arall yn ne ddwyrain Cymru, ac yn rhoi arweiniad iddynt, i ddatblygu ymagwedd ranbarthol at gomisiynu, ac rydym eisoes yn gwireddu arbedion effeithlonrwydd, ac arbedion ar gostau, trwy drafod fel grŵp o ddeg cyngor gyda darparwyr yn y sector annibynnol.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn gwella'r cynllunio ar gyfer y symudiad at fod yn oedolyn i blant anabl
- Byddwn yn cynyddu ein cronfa o gynhalwyr maeth i wella'r dewis ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc
- Byddwn yn recriwtio pum gweithiwr cymdeithasol ychwanegol i helpu rheoli materion gallu
- Byddwn yn gwella'r Cynllun Cyflogaeth Ar Ôl Gofal ymhellach
- Byddwn yn gwella'r addysg sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal, a phlant a phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed, trwy gydweithio gyda'r Gwasanaeth Addysg
- Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r naw cyngor arall yn ne ddwyrain Cymru i ddatblygu ymagwedd ranbarthol at gomisiynu gwasanaethau plant.

c) Plant Mewn Angen

Ein nod yw cadw plant yn eu cartrefi eu hunain ble'n bosib. Rydym yn camu i mewn pan fydd yn amlwg fod yna risgiau i'r plant, i atal y risgiau hynny rhag cynyddu a thrwy dargedu'r plant hynny sydd wedi dioddef niwed sylweddol, neu sy'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Tra bod yna adnoddau cyfyngedig i gefnogi'r grŵp yma o blant a phobl ifanc, rydym yn dal i weithio'n agos gydag asiantaethau eraill, gan gytuno ar waith ar y cyd yn rheolaidd, neu gytuno pwy sy'n mynd i arwain. Mae 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn brosiect a ddatblygwyd gyda Barnardo's ac mae'n anelu at gymryd camau cynnar ble mae yna risgiau i blant; byddwn yn adolygu pa mor effeithiol y mae wedi bod ar ôl ei flwyddyn gyntaf.

Rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wella'r amser y mae'n ei gymryd i ni gwblhau asesiad cychwynnol ac rydyn ni'n anelu at gwblhau 75% o fewn saith niwrnod i'r dyddiad cyfeirio. Dylid cwblhau asesiad craidd, ble rydyn ni wedi llwyddo i

wneud beirniadaeth fwy trwyadl ynghylch yr hyn sydd angen i ni ei wneud i wella cyfleoedd bywyd y plant dan sylw, o fewn 35 diwrnod. Rydyn ni'n anelu at wneud hyn gydag 80% o achosion, ond nid ydym yn cwrdd â'r targed hwn eto. Mae cyflwyniad systemau TG newydd yn cyfrannu at yr oedi ac, er gwaethaf hynny, mae angen i ni gofleidio technoleg newydd.

Oherwydd y defnydd o dechnoleg newydd i gofnodi achosion, a dulliau electronig eraill o storio gwybodaeth, mae gweithwyr cymdeithasol nawr yn treulio llai o amser gyda defnyddwyr gwasanaethau. Rydyn ni'n rhoi llawer o egni i helpu staff llinell flaen i wneud gwell defnydd o dechnoleg, a gobeithiwn y bydd hyn yn gwella wrth i weithwyr cymdeithasol wella eu llythrennedd TG. Fe fydd recriwtio pum gweithiwr cymdeithasol ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Plant yn gostwng y llwyth achosion cyfartalog.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddod i gyswllt â theuluoedd yn ddigon cynnar i wneud gwahaniaeth i fywyd plentyn
- Byddwn yn datblygu'r System Plant Integredig (ICS) i wella'n perfformiad
- Byddwn yn gwirio'n barhaus i weld sut mae'n perfformiad ni'n cymharu â chynghorau lleol eraill ledled Cymru.

d) Plant Anabl

Rydyn ni'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i gwrdd ag anghenion plant anabl, yn ogystal â chefnogi rhieni/cynhalwyr. Rydyn ni'n anelu at nodi canlyniadau clir o'n gwasanaethau, e.e. pobl ifanc yn ennill sgiliau a fydd yn gwella'u hannibyniaeth. Mae rhieni, plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i chwarae rhan wrth lunio'r math o wasanaethau sydd mewn lle. Rydyn ni'n falch fod y cynllun gweithiwr allweddol wedi cael ei farnu'n ddiweddar yn enghraifft dda o arfer gorau. Mae gwaith ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed a'u barn yn cael ei integreiddio i'n cynlluniau yn y dyfodol.

Rydyn ni wedi ymestyn yr amrywiaeth o wasanaethau egwyl byr, gan gynnwys gwasanaeth preswyl, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy. Dyma enghraifft dda o ddau gyngor bach yn cydweithio ac yn darparu gwell gwasanaeth o ganlyniad. Nawr, mae teuluoedd plant anabl yn gallu defnyddio Taliadau Uniongyrchol, ble maen nhw'n cael yr arian i wneud dewisiadau ynghylch y ffordd orau o gwrdd ag anghenion eu plant. Mae hyn wedi rhoi mwy o bŵer i rieni i wneud penderfyniadau

ac maen nhw wedi datblygu datrysiadau creadigol iawn i gwrdd â'u hanghenion nhw ac anghenion eu plant. Nid yw cynlluniau chwarae Torfaen yn gadael plant anabl allan ac, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Addysg, rydyn ni wedi ehangu amrediad a sgôp y cynlluniau sydd ar gael.

Fodd bynnag, nid oes lle i fod yn hunanfodlon. Mae angen i ni ddatblygu ac ymestyn yr amrediad o wasanaethau sydd ar gael, gyda'r cyd-nod bob tro o sicrhau mwy o annibyniaeth i'r plentyn neu'r person ifanc yn ogystal â chefnogi aelodau'r teulu fel cynhalwyr.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn datblygu pecyn cymorth ar gyfer cyfathrebu gyda phlant anabl heb leferydd
- Byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o gasglu barn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Byddwn yn gwerthuso pa mor dda y mae'r adborth yr ydyn ni'n ei gael ynghylch gwasanaethau yn dylanwadu ar eu datblygiad
- Byddwn yn monitro ein perfformiad yn erbyn targedau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i sicrhau nad ydyn ni'n syrthio tu ôl cynghorau eraill yng Nghymru
- Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr i barhau i wella ein harferion trosglwyddo ar gyfer pobl ifanc sy'n dod yn oedolion.

e) Gadael Gofal

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael ei wneud gan y Tîm 16+, sydd bellach yn rhan o Wasanaeth Cymorth Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS). Mae nifer o asiantaethau gwahanol yn chwarae eu rhan, e.e. Gyrfa Cymru, yr Asiantaeth Budd-daliadau, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaeth Addysg, CAMHS (Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) a'r Uned Digartrefedd. Mae TYPSS yn darparu gwasanaeth i bob person ifanc 16 i 21 oed ac mae hefyd yn cwrdd â chyfrifoldebau'r cyngor dros y bobl ifanc hynny sydd wedi bod 'mewn gofal'.

Mae'r tîm 16+ yn darparu gwasanaeth ar lefel sy'n gyson uchel, ac yn anelu at gwblhau 100% o gynlluniau llwybr ar gyfer pobl ifanc ar amser, ac mae'n debygol o fod wedi gwneud hynny gyda dros 70% o'r bobl ifanc y bu'n gweithio gyda nhw yn 2008/09. Mae yna ychydig bach sydd ddim yn cael eu cwblhau ar amser ac, fel

arfer, maen nhw'n canolbwyntio ar amharodrwydd y person ifanc i ymgysylltu. Ond, nid ydym yn hunanfodlon ac rydym wastad yn chwilio am ffyrdd o wella.

AMae gan bob person ifanc sy'n gadael gofal weithiwr cymdeithasol i'w cefnogi ac, er mai dim ond 77% sydd â chynghorydd personol, y gwir amdani yw mai nifer fach sy'n methu ag ymgysylltu â ni ac, yn aml, mae hyn yn ymwneud â'u hamgylchiadau unigol. Mae'r cymorth y mae TYPSS yn ei ddarparu i daclo problemau iechyd meddwl pobl ifanc, trwy'r nyrs seiciatrig cymunedol, wedi pontio'r gagendor rhwng CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gynnig hyfforddiant a phrentisiaethau, yn ogystal â swyddi llawn amser, i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Yn 2008/09 roedd yna 12 o bobl ifanc yn gweithio mewn rhyw ffordd i'r cyngor. Rydyn ni'n anelu at gynyddu'r nifer yma ac ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Gwella'r nifer o gynlluniau llwybr sy'n cael eu cwblhau ar amser
- Cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n cael cymorth cynghorydd personol
- Datblygu opsiynau llety i roi sylw i'r bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth
- Cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n gadael gofal ac yn cael cynnig hyfforddiant, prentisiaethau a swyddi gyda'r cyngor, a pharhau i fynd ar drywydd nawdd Ewropeaidd at y diben hwn.

f) Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wasanaeth ar y cyd, a Chyngor Sir Fynwy yw'r awdurdod sy'n rheoli. Ei nod yw atal troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc trwy waith partneriaeth rhwng yr asiantaethau hynny sydd â diddordeb yn y nodau hynny, h.y. Gofal Cymdeithasol a Thai, y GIG, y Gwasanaeth Addysg, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu, sy'n rhan o'r Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI).

Mae llawer o'r ymyraethau yn golygu gweithio'n agos gydag asiantaethau a phartneriaid tu allan i'r Tîm Troseddau Ieuenctid - fel TYPSS a Gyrfa Cymru. Mae holl waith y TTI gyda phobl ifanc yn cael ei danategu gan yr egwyddorion o'u helpu i gymryd 'Cyfrifoldeb' dros eu gweithredoedd: gwneud 'lawn' am eu gweithredoedd a chael eu 'Hailintegreiddio' i mewn i'w cymunedau; a dyma pam mae mewnbwn y gymuned yn ganolog i'r gwaith hwn.

Mae yna fwrdd rheoli lleol sy'n sicrhau bod perfformiad y tîm yn cael ei fonitro'n rheolaidd a chamau'n cael eu cymryd i unioni pethau, pan fydd angen.

Yn rheolaidd, mae perfformiad y tîm yn un o'r gorau yng Nghymru ac, ar y cyfan, mae'n cymharu'n ffafriol ar sawl maes ymarfer. Yn benodol, mae'r nifer o bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn gostwng yn Nhorfaen ac yn Sir Fynwy. Mae arolwg diweddar wedi cadarnhau'r farn honno.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Addysg i sicrhau bod pobl ifanc yn cael darpariaeth o ansawdd da i wella eu cyfleoedd mewn bywyd
- Deall sut allai tueddiadau a phatrymau diweddar mewn ymddygiad awgrymu newidiadau yn y gwaith o gynllunio ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol
- Parhau i sicrhau bod perfformiad yn dda a chymryd camau, ble mae angen, i wella ein perfformiad
- Monitro newidiadau yn y gyfraith ac effaith y newidiadau hyn ar lwyth gwaith y tîm.

3. Oedolion (yn cynnwys oedolion hŷn)

Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio'n agos gyda'r GIG, gan fod gennym bryderon a heriau cyffredin i gwrdd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol oedolion. Felly, mae nawr yn anarferol i'r cyngor gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phobl hŷn heb wneud hynny ar y cyd â'r GIG. Rydym wedi datblygu strategaethau comisiynu ar y cyd gyda Chynlluniau Gweithredu sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau ar gyfer grwpiau allweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan sicrhau ymagwedd unedig at flaenoriaethu buddsoddiad ar draws llywodraeth leol a'r GIG.

Gellir gweld hyn yn y ffordd y sicrhawyd adnoddau ychwanegol i gwrdd ag anghenion pobl gyda chyflyrau hir dymor a chronig trwy adnoddau Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Gellir gweld hyn hefyd yn y ffordd y mae prif weithredwyr y cyngor, y BILl ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ostwng Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal. Mae'r cyd-ymagwedd hon at gynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr wrth ganol y broses o lunio siâp gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau iechyd, tai, gofal cymdeithasol a lles yng ngogledd Torfaen hefyd wedi cael ei daclo ar y cyd, gan arwain at arbedion effeithlonrwydd a chwalu rhwystrau proffesiynol a sefydliadol.

Rydym wedi datblygu gwaith partneriaeth effeithiol gan weithio gyda AGGCC i sicrhau bod ein nod cyffredin o amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a gwella darpariaeth gwasanaethau, yn trechu unrhyw densiynau sefydliadol.

a) Cefnogi'r Trosglwyddiad o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion

Nawr, rydyn ni'n dechrau cynllunio'r symudiad at fod yn oedolion pan fydd y person ifanc yn ei 14eg flwyddyn, gyda gweithiwr cyswllt penodol yn y tîm gwasanaethau oedolion penodol, fel bod rhieni'n gwybod gyda phwy i siarad. Mae ysgolion yn rhan bwysig o'r gwaith cynllunio hwn gan eu bod yn adnabod y person ifanc a'i rieni yn dda. Fodd bynnag, y nod bob tro yw helpu pobl ifanc i ddod mor annibynnol â phosib, tra'n adnabod unrhyw beryglon i'r person ifanc a phryderon ei rieni. Mae Taliadau Uniongyrchol, ble mae teuluoedd yn cael yr arian i wneud eu trefniadau eu hunain, yn gallu gwneud gwir wahaniaeth. Mae rhai teuluoedd eisoes yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol ac yn dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r arian i wneud bywyd llawer yn well i'r person ifanc a'r teulu, yn ogystal â chynnig llawer mwy o reolaeth iddynt.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n cynghorau cyfagos, i sicrhau bod pob person ifanc yn cael yr help gorau posib i wneud y newidiadau a'n bod ni'n dysgu am yr hyn y mae eraill yn ei wneud mewn mannau eraill.

Mae pobl ifanc yn dal i orfod ailadrodd eu stori i ormod o asiantaethau, a dylai cydweithio rhwng cynghorau, ysgolion a'r GIG atal hynny rhag parhau i ddigwydd.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Sicrhau bod gan bob person ifanc anabl sydd yn ei 14eg flwyddyn weithiwr cyswllt penodol o fewn Gwasanaethau Oedolion a fydd yn mynychu adolygiadau blynyddol ac yn gweithio gyda'r teulu i gynllunio ei ddyfodol
- Gweithredu Polisi Trosglwyddiad Gwent a sicrhau ein bod yn dysgu o gael gweithwyr trosglwyddiad, ac yn datblygu gwell ffyrdd o gynllunio a chynnig gwasanaethau
- Gwneud mwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol fel bod oedolion ifanc yn gallu gwneud dewisiadau am eu dyfodol
- Cefnogi mwy o oedolion ifanc i sicrhau cartrefi lleol, gan gynnig cefnogaeth iddynt i fod mor annibynnol â phosib ac i uchafu eu lles a chadw eu cysylltiadau lleol.

b) Pobl hŷn

Dros flynyddoedd diweddar, rydyn ni wedi datblygu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i uchafu annibyniaeth pobl a'u galluogi nhw i aros yn eu cartrefi eu hunain, e.e. tai gyda gofal ychwanegol i bobl hŷn ac ymestyn gofal canolradd (gan gynnwys gwneud llawer mwy o ddefnydd o deleofal a thechnoleg newydd). Ar y cyfan, mae hyn wedi llwyddo. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi sefydlu Gwasanaeth Atal a Chefnogi Achosion o Syrthio ac wedi datblygu cyfleusterau gofal canolradd Camu i Fyny/i Lawr mewn unedau tai gwarchod, i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty neu i gefnogi rhyddhad diogel adref.

Mae pobl yn dweud wrthym y byddai'n well ganddynt aros gartref, gyda chymorth, bron bob tro, na symud i gartref preswyl. Mae tenantiaid yn Nhŷ George Lansbury (y cynllun gofal ychwanegol cyntaf yn Nhorfaen) yn dweud ei fod yn gweithio'n dda iawn iddyn nhw, mae ein gwasanaethau teleofal yn well na'r rheiny mewn rhannau eraill o Gymru ac mae gwasanaethau ail-alluogi a gofal canolradd wedi cael eu cydnabod mewn gwobrau cenedlaethol. Rydyn ni'n dangos bod pobl yn gallu osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, hyd yn oed pan fydd ganddyn nhw anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd cymhleth.

Gellir gweld canlyniadau'r datblygiadau hyn yn y niferoedd uwch o bobl sydd wedi cael cymorth i fyw gartref, a'r gostyngiad yn y nifer o bobl sydd wedi eu cadw'n ddiangen yn yr ysbyty, o dros 206 yn 2007/08 i 117 yn 2008/09.

Er mwyn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd, rydyn ni wedi ailgynllunio ein tîm gofal personol mewnol i ganolbwyntio ar adsefydlu a chefnogi pobl gydag anghenion cymhleth. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd, ond mae'r tîm mewnol yn datblygu sgiliau i gefnogi pobl gyda dementia ac anghenion cymhleth.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu nifer o gytundebau bloc gyda darparwyr gofal cartref i wella dibynadwyedd ac i gynnig peth sicrwydd fel eu bod yn gallu cynllunio eu busnes yn unol â'r hyn sydd ei angen arnom. Tra bod y broses hon wedi bod yn aflonyddgar i rai pobl, rydyn ni'n credu bod yr arwyddion yn dda ac fe fydd y gwasanaethau a gytundebir yn dechrau dangos y gwelliannau a gynlluniwyd dros y flwyddyn nesaf.

Rydyn ni'n cydnabod bod yna risg nad yw'r sector cartref gofal i bobl hŷn yn gallu darparu ansawdd gyson a chynaliadwy. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr i ddod o hyd i atebion tymor hir ac mae cynnig cytundebau bloc yn un ffordd o gynnig sicrwydd masnachol i'n darparwyr.

Weithiau, mae pobl wedi cael trafferth cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol yn gyflym. Rydyn ni'n gwella hyn trwy osod gweithiwr cymdeithasol yn y ganolfan gofal cwsmeriaid, felly mae cyngor proffesiynol ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf. Rydyn ni'n taclo absenoldeb oherwydd salwch ac felly mae mwy o bobl ar gael gennym i ymateb i ymholiadau cychwynnol. Rydyn ni'n gwneud gwell defnydd o dechnoleg newydd fel bod ein staff yn gallu gweithio'n fwy effeithiol i ffwrdd o'r swyddfa.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn canolbwyntio ar gamu i mewn ar gam cynnar trwy helpu pobl i adennill eu sgiliau byw'n annibynnol
- Byddwn yn rheoli'r newidiadau i ofal cartref pobl i sicrhau nad oes cymaint o darfu wrth symud at gytundebau bloc
- Byddwn yn datblygu ac yn annog y defnydd do wasanaethau teleofal, fel eu bod yn rhan graidd o'r gwasanaethau a gynigir i bob person hŷn, a byddwn yn cryfhau gwasanaethau gofal canolradd
- Byddwn yn cynllunio i gynyddu'r nifer o gynlluniau tai gofal ychwanegol yn y fwrdeistref dros y pum mlynedd nesaf
- Byddwn yn gweithio gyda chynghorau cyfagos i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ein gweithgarwch comisiynu a hefyd i drosglwyddo gwasanaethau sy'n addas at y dyfodol, ar sail yr hyn y mae pobl ei eisiau ac yn debygol o fod ei angen mewn 20/30 mlynedd
- Byddwn yn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid ac yn gwneud newidiadau pellach pan fydd angen.

c) Gwasanaeth Pobl Anabl

Fel pob grŵp arall o bobl, mae pobl anabl yn ei chael lawer yn haws cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol os yw'r gwasanaethau hynny'n gydlynol ac, yn ddelfrydol, yn integredig. Roeddem wedi creu Gwasanaeth Pobl Anabl yn 2007 i'w gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau heb orfod cysylltu ag adrannau a mudiadau gwahanol. Mae'r gwasanaeth yn dod â therapyddion galwedigaethol, syrfewyr a gweithwyr cymdeithasol at ei gilydd ac maen nhw nawr wedi eu lleoli mewn un swyddfa. Mae hyn yn golygu y dylai ein hymateb fod wedi ei gynllunio'n dda a'i drosglwyddo gyda ffocws ar y dinesydd. Mae rhai o'r arferion a'r polisïau wedi bod angen eu newid ers cryn amser, ac mae hyn yn digwydd gyda'r nod o osgoi oedi a chymhlethdodau diangen.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn, gydag un rheolwr, wedi ein galluogi ni i adolygu'r hyn sydd angen ei newid a'i ymestyn yn ystod 2009/10 gyda chymeradwyaeth polisi wedi'i ddiweddaru ar grantiau cyfleusterau ar gyfer yr anabl. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth yn mynd i brofi arferion gweithio eraill, ac eisoes wedi dangos gwelliannau mewn perfformiad trwy well defnydd o dechnoleg newydd. Rydyn ni'n adolygu ein gallu i ddelio gyda'r materion sy'n effeithio ar y cyfnod y mae'n rhaid i bobl aros i gael offer a/neu addasiadau i'w cartrefi, gan gydnabod bod rhestrau aros wedi cynyddu.

Mae'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gofal seibiant yn dal i fod yn gyfyngedig ac mae yna brinder gwasanaethau i bobl gydag anghenion cymhleth. Bellach, nid yw'n rhatach cefnogi rhywun gartref nag mewn cartref preswyl neu nyrsio, ac fe fydd hyn yn cyflwyno her oherwydd yr adnoddau cyfyngedig, er mai ein bwriad yw osgoi gofyn i bobl adael eu cartrefi eu hunain. Gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol ac efallai mai dyma fydd yr opsiwn gorau i alluogi pobl i wneud trefniadau i gwrdd â'u hanghenion eu hunain, waeth pa mor gymhleth.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn adolygu'r gallu a'r galw o fewn y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol i sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau
- Byddwn yn sicrhau bod grantiau cyfleusterau'r anabl yn cael eu defnyddio i'r uchaf i gefnogi pobl i aros yn y gymuned
- Byddwn yn parhau trafodaethau gyda darparwyr i ddatblygu gwasanaethau newydd
- Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau gofal â mwy o 'ffocws canlyniadau'
- Byddwn yn adolygu'r cyfleusterau TG a llety sydd ar gael i'r tîm.

d) Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl

Mae llawer gormod o bobl hŷn wedi bod yn aros yn yr ysbyty pan fyddan nhw'n ddigon iach i'w rhyddhau. Mewn rhai achosion, roedd yr oedi yn ganlyniad i brinder llety addas. Ar ddiwedd 2007, roeddem wedi comisiynu nifer fach o lefydd preswyl i alluogi pobl hŷn, gyda dementia a mathau eraill o wendid meddyliol, i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac mae hynny wedi profi'n llwyddiannus iawn ac wedi parhau trwy 2008/09. Yn Ionawr 2009, nid oedd unrhyw un wedi gorfod aros yn yr ysbyty am nad oedd 'lleoliad addas' ar gael ac mae hyn yn llwyddiant go iawn. Yn Ebrill 2009, aeth y pwrcasu bloc yn ei flaen gyda darparwr lleol am 39 gwely cofrestredig ar gyfer yr Henoed Eiddil eu Meddwl ar draws tri chartref gofal yn y fwrdeistref. Roedd hyn wedi rhoi sylw i'r angen i gynyddu'r nifer o welyau cofrestredig ar gyfer yr Henoed Eiddil eu Meddwl yn Nhorfaen.

Nawr, mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn rhannu llety gyda staff Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent ac rydym yn gweld manteision cydweithio, e.e. nawr, mae staff yr Ymddiriedolaeth GIG yn cyflawni'r rôl cydlynu gofal ac mae'r rota oriau estynedig yn cael ei rhannu ar draws y ddau dîm.

O ganlyniad i fuddsoddiad mewn gwasanaethau sy'n seiliedig yn y gymuned, fel Allgymorth Pendant, Tîm Gwasanaeth Mynediad Cyntaf a'r cynnydd yn argaeledd therapïau seicolegol, mae llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty.

Gweithredwyd y ddeddfwriaeth Safonau Amddifadu o Ryddid, sydd â'r potensial o effeithio ar bob oedolyn sydd â phroblemau gyda'u gallu meddyliol, yn llwyddiannus trwy gonsortiwm o gynghorau ac asiantaethau iechyd meddwl ar draws Gwent, gydag ymarferwyr lleol yn mynychu rhaglenni hyfforddiant, ac yn cyfrannu atynt, i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn datblygu gwasanaethau i alluogi pobl sy'n cael eu gosod ymhell o'u cartref, teulu a ffrindiau i ddychwelyd yn agosach at eu cartref
- Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar y canlyniad yr ydym wedi ei gytuno gyda'r defnyddiwr gwasanaeth
- Byddwn yn ystyried sut i helpu rhai o asiantaethau'r sector gwirfoddol i ailgynllunio eu gwasanaethau neu i ddatgomisiynu'r gwasanaethau hynny i gwrdd â blaenoriaethau newydd
- Byddwn yn sicrhau bod Safonau Amddifadu o Ryddid, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu gweithredu
- Rydyn ni'n anelu at symud y tu hwnt i gyd-leoli timau, tuag at wasanaeth integredig, gyda chyllideb wedi ei rhannu, TG integredig ac un system ar gyfer ffeiliau achos a rheoli llinell.

e) Anableddau Dysgu

Ym Mawrth 2009, symudodd y Tîm Anableddau Dysgu i mewn i lety wedi'i rhannu gyda thîm Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Roedd hyn wedi cael ei gynllunio ers sawl blwyddyn ac roedd yn nodi dechrau'r system o ddarparu gwasanaethau trwy un rhif ffôn. Dyma thema gref yn llawer o'n gwasanaethau a byddwn yn 'ymdrechu i osgoi gwneud pethau ar ein pennau ein hunain'. Weithiau, fe fydd hyn yn cael ei gyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael.

Rydyn ni wedi gwella ansawdd ac amrywiaeth gweithgareddau dydd sydd ar gael ac mae rhai pobl nawr yn cael eu cefnogi yn eu fflatiau eu hunain, fel tenantiaid gyda'u 'drws ffrynt' eu hun. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi dibynnu ar ofal preswyl yn rhy aml gyda phobl sydd ag anableddau dysgu, pan, gyda chymorth, maen nhw'n gallu arwain bywydau eithaf annibynnol.

Rydyn ni wedi etifeddu gwasanaethau drud iawn, a ddatblygwyd wedi cau ysbytai cyfnod hir yn lleol. Mae hyn wedi arwain at bwysau parhaus ar y gyllideb. Mae angen moderneiddio'r gwasanaethau hyn a'r unig ffordd o wneud hyn yn llwyddiannus yw gweithio gyda darparwyr, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, a chynghorau cyfagos. Roedd adolygiad annibynnol yn 2007 yn gwneud nifer o awgrymiadau ac roedd symud pobl i'w tenantiaethau eu hun, o ofal preswyl, yn un argymhelliad o'r fath yr oeddem eisoes wedi dechrau ei gyflwyno. Mae angen i ni wneud llawer mwy. Rydyn ni'n bwriadu gweithio'n agos gyda'n cynghorau cyfagos i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu, a gwneud arbedion cost gyda darparwyr y gwasanaethau hynny.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn adolygu cynlluniau gofal hirsefydlog i sicrhau bod person mor annibynnol â phosib, bod cymorth yn gost-effeithiol a bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig ble bynnag mae hynny'n bosib
- Byddwn yn ailadrodd nod y gwasanaeth, sef uchafu annibyniaeth a lles pobl
- Byddwn yn datblygu strategaeth i gwrdd ag anghenion pobl sydd ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig (ASA)
- Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau
- Byddwn yn datblygu integreiddiad llawer agosach ar gyfer y gwasanaeth wrth gydleoli timau'r cyngor a'r Ymddiriedolaeth GIG, e.e. rhannu systemau gwybodaeth, cyllidebau wedi eu halinio neu gronni a rheolaeth integredig
- Byddwn yn defnyddio ffyrdd newydd o gostio pecynnau cymorth ar y cyd gyda chynghorau cyfagos
- Byddwn yn parhau i weithio gyda chynghorau cyfagos i sicrhau arbedion maint trwy gomisiynu ar y cyd, e.e. Grŵp Cynghori ar Gomisiynu Anableddau Dysgu Gwent.

f) Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda chynghorau eraill yn ne ddwyrain Cymru i gyflwyno polisïau a gweithdrefnau effeithiol i amddiffyn pobl/oedolion sy'n agored i niwed. Rydyn ni'n gallu adnabod rhai pobl sydd mewn perygl ar gam cynnar, a dod o hyd i ffyrdd o ostwng y perygl hwnnw. Rydyn ni wedi dysgu cryn dipyn o'n profiad o amddiffyn plant a phobl ifanc, yn enwedig yr angen i ddod â phobl at ei gilydd o bob asiantaeth sydd â diddordeb, i gytuno ar y camau sydd angen eu cymryd i amddiffyn person dan 18 oed sy'n agored i niwed ac i rannu cyfrifoldeb dros y canlyniad.

Rydyn ni wedi cael niferoedd uchel o oedolion sydd angen eu hamddiffyn dros y tair blynedd diwethaf, ond nid yw'n glir a yw hyn yn bennaf ddyledus i effaith hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, yn hytrach na bod mwy o bobl mewn perygl yn lleol. Mae yna ymchwiliad i unrhyw gyfeiriadau sy'n gysylltiedig â bregusrwydd person, a'r risgiau cysylltiedig, ac rydym wastad yn cymryd camau i ostwng risgiau.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn sefydlu Tîm Diogelu integredig ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion, er y bydd y cyfrifoldeb yn cael ei rhannu'n briodol rhwng y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Chyd-gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaethau Integredig - y nod yw rhannu arfer gorau a chreu arbedion effeithlonrwydd trwy gronni adnoddau
- Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o ymyraethau effeithiol i ddatblygu modelau gwasanaeth newydd, a rhai gwell
- Byddwn yn monitro faint o bobl sydd angen eu hamddiffyn, i ddeall os oes amgylchiadau arbennig yn lleol sy'n cynhyrchu niferoedd uchel
- Byddwn yn pwyso ar asiantaethau allweddol i anfon cynrychiolwyr bob tro i gyfarfodydd ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch camau a gymerir i waredu/gostwng peryglon i bobl fregus
- Byddwn yn adolygu ac yn gwella arferion gwaith a dogfennaeth i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau
- Byddwn yn parhau i wella hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr mewnol ac allanol, a rheolwyr, i hyrwyddo arfer gorau.

g) Cymorth i Gynhalwyr

Mae cynhalwyr yn rhan hanfodol o'r system sy'n cynnal pobl anabl a phobl hŷn, yn ogystal â phlant a phobl ifanc anabl o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydyn ni wedi datblygu cyfres o wasanaethau â chymorth i gynhalwyr, gan gynnwys cymorth i Ganolfan Cynhalwyr Torfaen. Mae cynhalwyr mewn sefyllfa unigryw i ddeall anghenion a hoffterau'r person y maen nhw'n gofalu amdanynt, gan gynnig gwybodaeth sy'n hanfodol wrth fwydo cynlluniau i wella gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae gan gynhalwyr eu hanghenion eu hunain hefyd, ac mae angen asesu'r anghenion hyn. Cydnabyddir Canolfan Cynhalwyr Torfaen ym Mhont-y-pŵl fel enghraifft o arfer gorau yn y ffordd y mae'n darparu gwybodaeth dda a chymorth

adeiladol i Gynhalwyr, mewn amgylchedd diogel, tra bod eu rhai annwyl yn cael cymorth mewn man arall. Fe gafodd y cyngor gydnabyddiaeth gan Ragoriaeth Cymru am ei wasanaethau cymorth arloesol i gynhalwyr, gan gynnwys hybu iechyd a lles cynhalwyr, cynnig cyrsiau Moving on from Caring a thrafod gwyliau bargen i gynhalwyr gyda chwmnïau gwyliau blaenllaw.

Cwblhaodd y Gweithiwr Cynnal Cynhalwyr bron i 400 o asesiadau cynhalwyr yn ystod 2008/09 a gostyngwyd yr ôl-groniad yn sylweddol gyda chymorth aelod ychwanegol o staff. Dangosodd y Ganolfan Cynhalwyr y ffordd i 250 o gynhalwyr at wasanaethau cymorth, a chynigiwyd cymorth ymarferol i dros 500 o gynhalwyr yn ystod 2008/09. Aeth dau ar bymtheg o gynhalwyr ar egwyl seibiant o bedwar diwrnod i Dde Lloegr, ac mae cynhalwyr wedi derbyn 10% o'r Taliadau Uniongyrchol, un o'r cyfraddau gorau gan gynhalwyr yng Nghymru.

Datblygwyd nifer o gyrsiau i gefnogi cynhalwyr. Bu 68% o gynhalwyr newydd yn mynychu un o'r cyrsiau yn ystod y flwyddyn, gyda dros 100 o gynhalwyr yn ystod 2008/09. Darperir dros 6,000 awr o ofal seibiant bob blwyddyn ar draws y fwrdeistref i gynhalwyr.

Dyma ein blaenoriaethau:

- Byddwn yn cynyddu'r gallu trwy gyflogi Gweithiwr Cynnal Cynhalwyr pellach
- Byddwn yn adnabod cynhalwyr newydd ac yn sicrhau eu bod yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddyn nhw
- Byddwn yn adnabod atebion arloesol i gynnal cynhalwyr
- Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gynhalwyr sy'n cael asesiadau eu hunain
- byddwn yn gweithio gyda'r adran addysg ac asiantaethau eraill i adnabod a chymorth cynhalwyr ifainc.

Casgliad

Mae yna lawer i'w wneud o hyd, ac nid oes modd rhoi unrhyw le o gwbl i fod yn hunanfodlon mewn busnes ble mae'n rhaid i ni reoli a chymryd risgiau. Mae'r bobl yr ydyn ni'n gweithio gyda nhw yn dod â'u holl freuder gyda nhw, fel ein staff ni ar adegau, ac felly nid oes modd gwarantu na fydd pethau byth yn mynd o'u lle.

Fodd bynnag, rydyn ni wedi dangos, dros nifer o flynyddoedd, fod gennym systemau diogel mewn lle, systemau sy'n gofyn i bob asiantaeth fod yn rhan o'n nod o rannu cyfrifoldeb dros amddiffyn a diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae'r thema o 'beidio â gwneud unrhyw beth ar ein pennau ein hunain' yn rhedeg trwy'r adroddiad hwn, ac mae gan y thema hon flas cryf yn ein gwaith gyda chynghorau eraill, yn enwedig wrth ddatblygu ymagwedd ranbarthol at gomisiynu gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion.

Rydyn ni wedi cyfeirio ar sawl achlysur, at symud y ffocws at gynllunio 'yn seiliedig ar ganlyniadau'. Fe fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae angen i'r broses o dynnu sylw at ganlyniad ein gwaith gynnig gwir fanteision cyffyrddadwy i ddefnyddwyr ac i gynhalwyr, yn enwedig pan fydd yn rhaid i ni gymryd camau i amddiffyn ac i ddiogelu pobl.

Yr ydym yn croesawu eich barn. Os hoffech roi eich sylw i'r adroddiad hwn, E-bostiwch fi yn DOSC@torfaen.gov.uk os gwelwch yn dda.

Keith Rutherford

Prif Swyddog Dros Dro, Gofal Cymdeithasol a Thai

Mehefin 2009